**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fawrth Ionawr 17eg 2017 am 7.30 yr hwyr yng Nghanolfan Bro Cernyw

Ymddiheuriadau: Einir Williams, Gwynfor Davies, Cynghorydd Dilwyn Roberts

Presennol: Gwydion Jones (Cadeirydd), Ian W Griffith, Diane Roberts, Ann Vaughan, Ifor Edwards, Emlyn Williams, Gwyn Williams, Elen Edwards a'r Clerc

62.1 DATGAN CYSYLLTIAD - mynegodd Gwydion Jones gysylltiad ag eitem 7a) Cais Cynllunio Rhif 0/43502 Hendre Llwyn y Maen.

62.2 COFNODION –edrychwyd ar gofnodion cyfarfod 30ain Tachwedd 2016, Pwyllgor Cronfa Bro Cernyw 30 Tachwedd a chyfarfod 14eg Rhagfyr a phenderfynwyd yn unfrydol eu bod yn gofnod cywir.

62.3 MATERION YN CODI O'R COFNODION - HEN YSGOL LLANGERNYW – adroddodd Elen Edwards y byddai yn mynychu cyfarfod yn Llanfair Tal Haiarn yn fuan ynglŷn ag amrywiol faterion.

62.4 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD
62.4.1 CYFARFOD SAFLE GER TAFARN Y BONT – adroddodd Diane Roberts iddi fynychu'r cyfarfod ynglŷn a diogelwch defnyddwyr y llwybr cyhoeddus a deallir bod y Cyngor Sir am dorri'r gwrych er mwyn gwella gweledìad a bod y perchennog yn hapus â hynny.
62.4.2 Nid oedd unrhyw wybodaeth pellach ynglŷn â'r pontydd.

62.5 TOILEDAU LLANGERNYW – PENDERFYNWYD i anfon adroddiad strwythurol Cyngor Conwy ymlaen i'r Cyfreithwyr. Cynigiodd Ifor Edwards beintio dros y rhwd sydd wedi ymddangos ar y ffens a osodwyd tu allan i'r toiled anabl.

62.6 MATERION CYNLLUNIO
62.6.1 Cais Rhif 0/43502 Amrywio amod rhifau 2,4,6,11 y caniatad cynllunio a roddwyd dan gôd rhif 0/41135 (codi tyrbin gwynt gydag uchder hwb o 30.52m ac uchder blaen llafn o 45.07m gan gynnwys cabinet rheolia gwifrau cysylltiedig) yn Hendre Llwyn y Maen, Llanfairtalhaiarn gan Mr R L Crossley. Gadawodd Gwydion Jones y cyfarfod a daeth Gwyn Williams i'r gadair. PENDERFYNWYD i gefnogi'r cais ond ddim yn unfrydol.
Daeth Gwydion Jones yn ôl i'r gadair.
62.6.2 Cais Rhif 0/43528 Adeiladu sied amaethyddol ar gyfer da byw, bwydydd anifeiliaid ac offer amaethyddol yn Tan y Graig, Llangernyw gan Mr Dewi Roberts – PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.
62.6.3 Cais Rhif 0/43459 Tyrbin Gwynt Bodrach, Carmel, Llanrwst – gwybodaeth ychwanegol
62.6.4 Cais Rhif 0/43567 Dymchwel adeilad dal coed a storio ac adeiladu adeilad cadw a sychu coed newydd yn Felin, Pandy Tudur gan Mr Emlyn Roberts – PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.
62.6.5 Ymgynghoriad Ceisiadau Cynllunio – Awdurdod Lleol. Derbyniwyd llythyr gan y Prif Swyddog Paula Jones yn dweud na fydd ceisiadau cynllunio papur yn cael eu hanfon i gynghorau

ar ôl Ebrill 1af oherwydd y gost. PENDERFYNWYD i ateb gan ofyn iddynt ail ystyried eu bwriad gan nad oes band eand cyflym wedi ei osod yn ardal y Cyngor Cymuned a mannau eraill yng nghefn gwlad a byddai'n anodd iawn i gynghorwyr astudio ceisiadau ar lein. Angen anfon copi o'r llythyr at y Cynghorydd Dilwyn Roberts.

62.7 CEISIADAU ARIANNOL – PENDERFYNWYD i gyfrannu £30 at Cymorth Canser Macmillan. Roedd y Clerc wedi gwneud ymholiadau ag Ysgol Bro Cernyw a chan nad oedd 'Dawns i Bawb' yn mynychu'r ysgol PENDERFYNWYD i beidio cyfrannu i'r cwmni.

62.8 CYLLIDEB Y CYNGOR A PHENNU PRAESEPT 2017/18
Paratodd y Clerc daflen taliadau a derbyniadau y Cyngor yn ystod y flwyddyn ac amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn nesaf. Codwyd nifer o bwyntiau: angen holi am anfoneb am hurio Canolfan Pandy Tudur;
Y WEFAN - angen gofyn i Arfon Parry a wyddai faint o ddefnydd a wneir o'r wefan. Derbyniwyd anfoneb ganddo am waith y flwyddyn a hefyd cynnig ganddo i ofalu am y wefan, oedd yn cynnwys cwrs i hyd at 5 o bobl i olygu'r wefan, am £350 y flwyddyn. PENDERFYNWYD i dderbyn ei gynnig ac i dalu am y wefan o Gronfa Bro Cernyw. Hefyd i hysbysu cymdeithasau drwy'r Gadlas a'r Cylchlythyr i anfon gwybodaeth am ddigwyddiadau at Arfon Parry.
SCIPIAU CYMUNEDOL – gan fod scip Llangernyw yn llenwi yn syth y Clerc i holi Cyngor Conwy ynglŷn a llogi scip arall i'r pentref.
CLERC – darllenodd y Cadeirydd lythyr gan y Clerc yn mynegi ei dymuniad i ymddiswyddo yn fuan o'r swydd. Penderfynwyd i godi'r cyflog 3% gyda chwyddiant ar gyfer y gyllideb.
Wedi trafodaeth PENDERFYNWYD i gadw'r Praesept yr un fath eleni sef £9450.

62.9 DELIO Â CHWYNION GAN Y CYHOEDD – derbyniwyd ateb i'n ymholiad ar ebost gan Luned Evans, Un Llais yn datgan na ddylid enwi aelod o'r cyhoedd wrth drafod cwynion na chofnodi enwau mewn cofnodion. PENDERFYNWYD i roi hyn yn y cylchlythyr ac i anfon copi o'r ebost i'r aelodau.

62.10 PROSIECT TAITH Y PERERIN GOGLEDD CYMRU – roedd Elen Edwards yn cynnal cyfarfod yn fuan i drafod rhai materion oedd heb eu cwblhau o fewn y prosiect. Roedd problem ynglyn ag arwyddo'r llwybr yn gyffredinol, panel Pandy Tudur heb ei gwblhau na'r hwb yn Eglwys San Digain.

62.11 TORRI MYNWENTYDD Y CYNGOR 2017/18 – y Clerc i hysbysebu yn y Gadlas, ar y wefan ac ar yr hysbysfyrddau am brisiau i dorri'r bedair mynwent.

62.12 PWYLLGOR ARDAL CONWY DINBYCH UN LLAIS – enwebwyd Diane Roberts ac Elen Edwards i gynrychioli'r Cyngor ar y Pwyllgor Ardal. Gobeithia Diane Roberts fynychu'r cyfarfod ar 25ain Ionawr.

62.13 FFORWM CYNGHORAU CYMUNED A THREF CONWY – cynigiodd Elen Edwards fynychu'r cyfarfod ar 26ain Ionawr.

62.14 MABWYSIADU CIOSG FFÔN – er nad yw ciosg ffôn Gwytherin ar restr BT o'r rhai sy'n cael eu gwaredu dylid gwneud yn siwr bod y ffôn yn aros yno. Penderfynwyd i roi'r eitem ar Agenda'r cyfarfod nesaf.

62.15 CARWYN JONES AC – hysbysebwyd y cyfarfod yn Llanrwst ar 19eg Ionawr gyda'r Prif Weinidog.

62.16 MATERION LLEOL

62.16.1 Ffos wedi tagu o dan y ffordd ar waelod allt Tyn Pistyll eto.

62.16.2 Dŵr yn llifo dros y ffordd ar y tro uwchben Cartref yr Hen Ficerdy.

62.16.3 Angen strimio a stricio gwrych rhwng Glog Ddu a Phen Rhiw.

62.16.4 Yr Hen Efail, Llangernyw – y Clerc wedi anfon y llun o'r adeilad bregus ymlaen i Gonwy.

62.16.5 Hysbyswyd y Cyngor bod contractwyr lleol yn cael tendro am dorri ochrau ffyrdd.

62.16.6 Adeiladau Iard y Stag mewn cyflwr peryglus – byddai giat wrth y ffordd yn rhwystro plant rhag mynd yno - Adran Gwarchod y Cyhoedd.

62.16.7 Cerrig mân ar ffordd Gwytherin i Lansannan yn dal ar y ffordd er bod lori sgubo wedi bod heibio.

62.16.8 Angen sgubo ochr y ffordd o Wytherin i gyfeiriad Llansannan.

62.16.9 Byddai'n dda gosod gwastraff tarmac er mwyn cael lle caled i basio ar allt Tyn Pistyll.

62.16.10 Angen gwybod pryd fydd BT yn gorffen y gwaith - y Clerc wedi gofyn i David Jones AS am gymorth.

62.17 BILIAU

| | |
|---|---|
| Cyflog a Chostau Clerc | £815.80 |
| Gwydion Jones (Costau Teithio i Gynhadledd) | £60 |
| Cyllid y Wlad (TWE) | £6 |
| Canolfan Bro Cernyw (hurio) | £57 |
| Arfon Parry (Cynnal y wefan)(Cronfa Bro Cernyw) | £356 |

Daeth y cyfarfod i ben am 10.15 yr hwyr.

*Cymeradwywyd y Cofnodion ..G A Jones..........................* *Dyddiad ....15/2/17......................*

Community Council Meeting was held on Tuesday 17 January 2017 at 7.30 pm at Canolfan Bro Cernyw

Apologies: Einir Williams, Gwynfor Davies, Cllr Dilwyn Roberts

Present: Gwydion Jones (Chair), Ian W Griffith, Diane Roberts, Ann Vaughan, Ifor Edwards, Emlyn Williams, Gwyn Williams, Elen Edwards and Clerk

62.1 DECLARATION - Gwydion Jones expressed connection with item 7a) Planning Application No. 0/43502 Hendre Llwyn y Maen.

62.2 MINUTES – Minutes of 30th November 2016 meeting, Bro Cernyw Fund Committee meeting November 30 and council meeting December 14 were looked at and it was unanimously agreed that they were an accurate record.

62.3 ISSUES ARISING FROM THE MINUTES - OLD SCHOOL LLANGERNYW - Elen Edwards reported she would be attending a meeting in Llanfair TH soon to discuss various issues.

62.4 ROAD AND ENVIRONMENT MATTERS

62.4.1 MEETING SITE NEAR BRIDGE INN - Diane Roberts reported that she had attended a meeting on consumer safety and public footpath and it is understood that County Council would cut the hedge in order to improve the visibility and the owner is happy with that.
62.4.2 No further information about the bridges.

62.5 LLANGERNYW TOILET - RESOLVED to send the structural report by Conwy Council to the solicitors. Ifor Edwards offered to paint over the rust that has appeared on the fence installed outside the disabled toilet.

62.6 PLANNING
62.6.1 Application No. 0/43502 Variation of condition numbers 2,4,6,11 the planning permission granted under code number 0/41135 (wind turbine with a hub height of 30.52m and 45.07m of blade tip height including cabinet for wires) at Hendre Llwyn y Maen, Llanfairtalhaiarn by Mr RL Crossley. Gwydion Jones left the meeting and Gwyn Williams came to the chair.
RESOLVED to support the application but not unanimous.
Gwydion Jones came back to the chair.
62.6.2 Application No. 0/43528 Erection of agricultural shed for livestock, animal feed and agricultural equipment at Tan y Graig, Llangernyw by Mr David Roberts - RESOLVED unanimously to support the application.
62.6.3 Application No. 0/43459 Wind Turbine Bodrach, Carmel, Llanrwst - Additional information
62.6.4 Application No. 0/43567 Demolition of building and construction of timber storage and drying Building at Felin, Pandy Tudur by Mr Emlyn Roberts - RESOLVED unanimously to support the application.
62.6.5 Consultation on Planning Applications - A letter from the Chief Officer Paula Jones read that applications on paper will no longer be sent to councils after April 1 because of the cost. RESOLVED to answer by asking them to reconsider their intention as there is no super fast broadband in the area of the Community Council or in other communities in the countryside and would be very difficult for councilors to study applications online. Need to send a copy of the letter to Councillor Dilwyn Roberts.

62.7 FINANCIAL APPLICATIONS - RESOLVED to contribute £ 30 towards Macmillan Cancer Support. The Clerk had made inquiries with Ysgol Bro Cernyw to see if the Group ‘Dance for All’ visited the school and as the response was negative it was RESOLVED not to contribute to the company.

62.8 COUNCIL BUDGET AND DETERMINATION OF PRECEPT 2017/18
The Clerk prepared a sheet of the Council’s payments and receipts during the year and an estimate for the next year. Raised a number of points: the need to ask for an invoice for hiring Pandy Tudur Community Centre;
WEBSITE - need to ask Arfon Parry if he knew how much use is made of the website. He sent an invoice for the work for the year and also and offer of him taking care of the website, which included a course for up to 5 people to edit the website, for £ 350 per annum. RESOLVED to accept his offer and to pay for the website from Cronfa Bro Cernyw in future. Also to inform societies through Y Gadlas and Newsletter to send information about events to Arfon Parry.
COMMUNITY SKIPS - as the skip in Llangernyw fills immediately the Clerk to inquire about hiring another skip in the village this year.
CLERK - the Chairman read a letter from the Clerk expressing her desire to resign from the post soon. Decided to raise wages by 3% (inflation) for the budget.
After discussion it was to decided the keep the precept the same this year i.e. £ 9450.

62.9 DEALING WITH COMPLAINTS FROM THE PUBLIC - received an email reply to our inquiry from Luned Evans, One Voice stating that a member of the public should not be named when handling complaints nor recorded in records. RESOLVED to put this in the newsletter and to send a copy of the email to members.

62.10 NORTH WALES PILGRIM'S TRAIL PROJECT - Elen Edwards will hold a meeting soon to discuss some issues that were not completed within the project. There was a problem regarding the signing of the general route, Pandy Tudur panel incomplete and the digital hub in St Digain.

62.11 GRASS CUTTING IN CEMETERIES 2017/18 - the Clerk to advertise in the Gadlas, on the website and on the notice boards for tenders to cut the four cemeteries.

62.12 ONE VOICE DENBIGH CONWY AREA COMMITTEE - Diane Roberts and Elen Edwards were nominated to represent the Council on the Area Committee. Diane Roberts hopes to attend on 25th January.

62.13 COMMUNITY AND TOWN COUNCILS FORUM CONWY - Elen Edwards offered to attend the meeting on 26th January

62.14 ADOPTION OF TELEPHONE KIOSK - although BT phonebox Gwytherin is not on the list of those which are being disposed we should make sure that the phone stays there. Decided to put the item on the Agenda of the next meeting.

62.15 Carwyn Jones AM - advertised the meeting in Llanrwst on January 19 with the Prime Minister.
62.16 LOCAL ISSUES
62.16.1 Ditch blocked under the road at the bottom of the hill Tyn Pistyll again.
62.16.2 Water flowing over the road on the bend above the Old Vicarage Home.
62.16.3 Hedge needs to be cut and grass strimmed between Glog Ddu and Pen Rhiw.
62.16.4 The Old Smithy, Llangernyw - The Clerk had sent the picture of the Building's vulnerable state forward to Conwy.
62.16.5 The Council was informed that local contractors are allowed to tender for cutting verges.
62.16.6 Stag Yard Buildings in a dangerous condition - a gate on the entreance would prevent children from going there - Public Protection Department.
62.16.7 Chippings on Gwytherin road to Llansannan still on the road although the sweeper has been passed.
62.16.8 Need roadside sweep from Gwytherin to direction of Llansannan.
62.16.9 It would be good to install hard waste tarmac in laybyes to make it easier to pass on the Tyn Pistyll hill.
62.16.10 Need to know when BT will be finishing work - the Clerk has asked David Jones MP for assistance.

62.17 BILLS

| | |
|---|---|
| Clerk Salary and Costs | £ 815.80 |
| Gwydion Jones (Travel Expenses Conference) | £ 60 |
| Inland Revenue (PAYE) | £ 6 |
| Canolfan Bro Cernyw (hire and cupboard rent) | £ 57 |
| Arfon Parry (Maintain the website) (Cronfa Bro Cernyw) | £ 356 |

The meeting came to and end at 10.15 pm. *Signed ......G A Jones.................. Date....15/2/17......*